
Ein Hadolygiad Cwsmeriaid Blynyddol
2025/26
MHA
Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy

Beth sydd yn yr adroddiad hwn

3 Croeso gan ein Cadeirydd
4 Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni
5 Ein prif ystadegau
6 Ffarwel MHA ... Helô Awen!
7 Esboniad o'n pedwar piler

Ein Lleoedd

9 Ein Gwasanaeth Atgyweirio
13 Cipolwg ar Stoc MHA
13 Astudiaeth Achos
14 Adeiladu ar gyfer y dyfodol

Ein Pobl

17 Astudiaeth Achos
18 Cymorth
22 Eich cadw'n ddiogel yn eich cymuned
24 Cadw ein cymunedau'n fywiog
27 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)
27 Safonau'r Gymraeg

Ein Ffyniant

28 O ble y daw ein harian a sut rydym yn ei wario
29 Ein Bwrdd a'n Huwch-dîm Rheoli
24 Sut rydym yn cael ein rheoleiddio
31 Cwynion a dysgu
32 Buddsoddi mewn syniadau cymunedol
32 Cefnogi grwpiau lleol

Ein Planed

33 Cartrefi cynhesach ac yn fwy effeithlon o ran ynni
34 Diweddariad ôl-osod
35 Astudiaeth Achos
36 Arbed arian a lleihau gwastraff
37 Cyfryngau Cymdeithasol
39 Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych!

0345 677 2277

customerservices@monmouthshirehousing.co.uk

www.monmouthshirehousing.co.uk

Monmouthshire Housing Association
Nant-Y-Pia House, Mamhilad Technology Park
Mamhilad, Monmouthshire, NP4 0JJ

facebook.com/Monmouthshire.Housing

Cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Corfforaethol ar **01495 761104** neu **corporateservices@monmouthshirehousing.co.uk** os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn unrhyw iaith arall, fel PDF, mewn print bras neu Braille neu fel recordiad sain.

Croeso

Croeso gan Gadeirydd ein Grŵp, Tony Deakin

Croeso i Adolygiad Blynyddol Cwsmeriaid eleni.

Daw adolygiad eleni ar adeg bwysig i Gymdeithas Tai Sir Fynwy (MHA). Ym mis Medi, byddaf yn camu i lawr yn ffurfiol fel Cadeirydd y Grŵp, a bydd Ann Cornelius yn fy olynu yn y rôl. Rwyf wedi bod yn falch o wasanaethu fel Aelod o'r Bwrdd ers 2017 – gan gynnwys cyfnod fel Is-gadeirydd cyn dod yn Gadeirydd – ac mae wedi bod yn fraint bod yn rhan o sefydliad sydd mor ymroddedig i denantiaid, cartrefi a chymunedau.

Wrth i mi ysgrifennu'r croeso hwn, rwy'n gwneud hynny gyda myfyrdod a hyder ar gyfer y dyfodol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn cartrefi presennol, adeiladu cartrefi fforddiadwy newydd, cryfhau gwasanaethau atgyweirio a chymorth, a gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae tenantiaid yn ei ddweud wrthym. Bydd y blaenoriaethau hyn yn parhau i fod yn ganolog wrth i Ann ymgymryd â rôl Cadeirydd y Grŵp a helpu i arwain y sefydliad trwy ei bennod nesaf.

Mae'r bennod nesaf honno'n cynnwys ein hailfrandio ym mis Medi, pryd y bydd MHA yn dod yn Grŵp Tai Awen. Gallwch ddarllen mwy am yr hyn sy'n newid, pam mae hyn yn digwydd a beth mae'n ei olygu i denantiaid yn yr erthygl bwrpasol am yr ailfrandio, sydd i'w gweld yn ddiweddarach yn yr adolygiad hwn.

Wrth i ni symud drwy'r cyfnod hwn o newid, mae ein hymrwymiad yn parhau'n glir: tenantiaid sydd wrth wraidd popeth a wnawn. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar fodlonrwydd â'r gwasanaethau a ddarparwn, cyfathrebu clir, gwerth da am arian, a chymorth sydd wedi'i deilwra i anghenion unigolion.

Wrth i chi ddarllen ymlaen, fe welwch sut rydym wedi perfformio dros y flwyddyn a sut mae adborth gan denantiaid yn helpu i lunio'r hyn a wnawn nesaf. Cadwch lygad am enghreifftiau o Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni (DChGN) drwy'r ddogfen; mae'r rhain yn dangos ble mae eich barn wedi dylanwadu ar benderfyniadau ac wedi arwain at weithredu. Mae ein grwpiau preswylwyr a'r Gyfnewidfa hefyd yn parhau i gynnig ffyrdd pwysig i chi gael eich clywed a chymryd rhan.

Hoffwn ddiolch i denantiaid, deiliaid les a phreswylwyr sydd wedi rhannu barn, cwblhau arolwg, mynychu digwyddiad, codi pryder, cynnig canmoliaeth, neu gymryd rhan yn Llais y Gymuned, Y Gyfnewidfa neu sgyrsiau penodol eraill. Mae eich cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am y cynnydd a wnaed eleni, y gwaith sydd eto i'w wneud, a'r dyfodol cyffrous sydd o'n blaenau wrth i ni symud ymlaen gyda'n gilydd.



Tony Deakin,
Cadeirydd y Grŵp

Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni: Sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed

Dywedoch Chi:

Rydych chi eisiau gwybod, pan fyddwch chi'n rhannu eich barn, bod pobl yn gwrando arnoch, yn cymryd eich barn o ddifrif, ac yn ei defnyddio i wneud gwahaniaeth.

Gwnaethom Ni:

Rydym eisoes yn defnyddio adborth gan denantiaid i lunio gwasanaethau a phenderfyniadau. Eleni, rydym wedi bod yn gwella'r ffordd rydym yn casglu'r adborth hwnnw, yn dysgu o themâu cyffredin, ac yn rhoi gwybod am y gwahaniaeth y mae'n ei wneud. Mae hyn yn helpu ein Bwrdd a'n staff i weld yn gliriach beth mae tenantiaid yn ei ddweud wrthym, pa gamau gweithredu sydd wedi'u cymryd, a ble mae angen i ni barhau i wella.

Cadwch lygad am y symbol Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni i weld enghreifftiau o wahanol feysydd gwasanaeth. Mae'n dangos sut mae adborth o arolygon, cwynion, sgyrsiau, Llais y Gymuned, Y Gyfnewidfa, digwyddiadau a chyswllt dyddiol â thenantiaid yn helpu i lunio polisïau (y ffordd rydym yn gweithio), gwasanaethau, cymorth a gweithredu lleol.

DCHGN

Cipolwg: Ystadegau allweddol ac effaith

Dyma'r ystadegau sydd bwysicaf i chi; rydym wedi eu rhoi ar y dechrau er mwyn i chi allu gweld sut rydym yn perfformio.

92.7%
Boddhad tenantiaid yn gyffredinol

97.3%
Cwsmeriaid sy'n fodlon ar waith atgyweirio

3,996
Cartrefi sy'n eiddo i ni neu sy'n cael eu rheoli gennym

1.51%
Ôl-ddyledion rhent

40
Cyfanswm y cartrefi newydd fforddiadwy

96
Cartrefi sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd

£16.2m
Buddsoddiad mewn cartrefi presennol

19
cyfanswm cwynion ffurfiol

£2.39m
gwariant ar wella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi

Ffarwel MHA ... Helô Grŵp Tai Awen



Dylech fod yn ymwybodol eisoes ein bod yn mynd trwy 'ail-frandio', sy'n golygu y byddwn yn newid ein henw yn gyfreithiol i Grŵp Tai Awen (Awen Housing Group) yn fuan.

Efallai ein bod ni'n newid sut rydyn ni'n edrych fel busnes, ond ni fydd ein staff a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i chi yn newid!

Rydym yn angerddol am adeiladu llawer mwy o gartrefi fforddiadwy, buddsoddi mwy o arian yn y gwasanaethau yr ydych yn dweud wrthym eich bod yn eu gwerthfawrogi ac yn bwysig iawn parhau i wella lefel ein boddhad tenantiaid.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cymryd rhan yn ein hymgynghoriadau - mae hon yn ffordd bwysig i chi roi adborth i ni am eich barn am ein gwasanaethau.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r mewnbwn gan ein grŵp ymgynghori preswylwyr Llais y Gymuned, sydd wedi helpu i lunio ein cynlluniau cyfathrebu gyda'u hadborth gonest, gan atgyfnerthu'r angen am dryloywder, negeseuon syml a defnyddio amrywiaeth o offer i gyflwyno ein negeseuon – gwyddom nad yw un ateb sy'n addas i bawb yn gweithio.

Bydd yn drist gweld yr enw MHA yn mynd ond rydym yn falch iawn o'r hyn sydd wedi'i gyflawni ers ein creu yn 2008 ac yn gyffrous am ddyfodol Grŵp Tai Awen.

Ers 2008 rydym wedi esblygu'n aruthrol, rydym bellach yn adeiladu ein cartrefi ein hunain ac yn darparu cyfoeth o wasanaethau, gan helpu i gefnogi preswylwyr i ffynnu yn eu cartrefi eu hunain. Bydd newid enw ac ehangu ein ffiniau gweithredu yn ein galluogi i helpu a chefnogi hyd yn oed mwy o bobl.

Gallwn eich sicrhau ein bod yn aros fel yr un sefydliad, gyda'r un staff cyfeillgar. Rydym yn edrych ychydig yn wahanol ac rydym wedi diweddaru ein gwerthoedd a'n datganiad cenhadaeth i adlewyrchu'r ffordd y mae ein busnes, eich landlord yn esblygu.

Mae rhai o'r pethau a fydd yn newid yn cynnwys:

- Enw ein hap bellach fydd MyAwen
- Enwau ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol
- Cyfeiriad ein gwefan
- Ein cyfeiriadau e-bost

Byddwn yn ysgrifennu atoch dros yr wythnosau nesaf i gadarnhau'r manylion hyn i gyd a'r hyn sydd angen i chi ei wneud, felly peidiwch â phoeni.

Am ragor o wybodaeth, ewch i adran Cwestiynau Cyffredin ein gwefan.

Ein pedair colofn wedi'u hesbonio

Eleni mae ein Hadolygiad Cwsmeriaid Blynyddol wedi ei rannu i'r 4 colofn isod, mae hyn yn ein helpu i weld sut rydym ni'n perfformio yn erbyn ein hamcanion yn ein Cynllun Corfforaethol.



Ein Lleoedd

Rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu cartrefi diogel, fforddiadwy o ansawdd uchel gydag amgylchoedd bywiog, gan gydweithio â phartneriaid i greu cymunedau ffyniannus.



Ein Ffyniant

Gan fuddsoddi mewn twf, byddwn yn parhau i fod yn fusnes cryf a gwydn yn ariannol, gan hyrwyddo caffael teg a lleol.



Ein Pobl

Drwy hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant, talent amrywiol a byw'n iach byddwn yn cefnogi pobl i ffynnu a chyflawni eu gwir botensial.



Ein Planed

Byddwn yn parhau i adeiladu cartrefi cynaliadwy ac ecogyfeillgar, gan hyrwyddo gwytnwch ecolegol a chyfrannu tuag at dargedau carbon sero cenedlaethol.



Ein Lleoedd

Rydym yn gwybod bod cael cartref diogel, cynnes sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn bwysig i chi. Mae'n bwysig i ni hefyd. Eleni, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn gwaith atgyweirio, gwiriadau diogelwch, gwaith yn ymwneud â lleithder a llwydni, cymdogaethau, a chartrefi fforddiadwy newydd.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cymunedau mwy diogel, ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol, a helpu pobl yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig. Mae teimlo'n ddiogel yn eich cartref a'ch cymdogaeth yr un mor bwysig â'r cartref ei hun.

Ein Gwasanaeth Atgyweirio

Buddsoddi yn ein cartrefi a'u cynnal a'u cadw

Yn 2025/26, gwariwyd cyfanswm o £16.2 miliwn ar ein rhaglen atgyweirio a chynnal a chadw. Dyma sut y cafodd yr arian ei wario:

£9.4m
ar atgyweiriadau wedi'u cynllunio

£2m
ar atgyweiriadau i ddod â chartrefi gwag i'r safon ofynnol

£800k
ar atgyweiriadau cylchol

£2.8m
ar atgyweiriadau ymatebol (gwaith cynnal a chadw arferol)

£1.2m
ar gydymffurfedd â safonau iechyd a diogelwch

Atgyweirio ein cartrefi

Pan fyddwch chi'n rhoi gwybod i ni am atgyweiriadau, rydym yn gweithio'n galed i'w ddatrys yn gyflym ac i safon dda.

4,280
o atgyweiriadau wedi'u cwblhau (gan gynnwys y Tu Allan i Oriau)

96.85%
o atgyweiriadau wedi'u cwblhau'n iawn y tro cyntaf

16,480
o atygyweiriadau wedi'u gwneud

99.99%
o apwyntiadau wedi'u cadw

DChGN

Helpodd tenantiaid i lunio ein hadolygiad atgyweiriadau trwy ddweud wrthym beth sydd bwysicaf pan adroddir am waith atgyweirio, pan gaiff ei drefnu a'i gwblhau.

Helpodd yr adborth hwn ni i ganolbwyntio ar gyfathrebu clir, apwyntiadau dibynadwy, mynediad at y gwasanaeth a chwblhau atgyweiriadau'n iawn y tro cyntaf lle bynnag y bo modd. Helpodd Llais y Gymuned hefyd i sicrhau bod blaenoriaethau a phrofiadau tenantiaid yn cael eu hadlewyrchu yn yr adolygiad. Rydym yn defnyddio'r adborth hwn ochr yn ochr ag arolygon boddhad atgyweiriadau a gwybodaeth am effaith cydraddoldeb i barhau i wella'r gwasanaeth. Yn ystod 2025/26, cwblhawyd **97%** o atgyweiriadau'n iawn y tro cyntaf a chadwyd **99.99%** o apwyntiadau.



Sicrhau bod ein cartrefi yn ddiogel ac yn cydymffurfio â rheoliadau

Rydym am sicrhau bod tenantiaid a deiliaid les yn ddiogel yn y lleoedd y maent yn byw ynddynt. Dyna pam rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein cartrefi yn bodloni'r safonau gofynnol, yn unol â chanllawiau a rheoliadau'r Llywodraeth.

Pob cartref:

Helpwch ni i'ch cadw'n ddiogel

Mae'n bwysig caniatáu i'n tîm ddod i mewn i'ch cartref i gynnal y gwiriadau diogelwch pwysig hyn!

100%
o wiriadau diogelwch nwy wedi'u cynnal mewn cartrefi

99.83%
o archwiliadau larwm mwg

99.98%
o wiriadau diogelwch trydanol wedi'u cynnal mewn cartrefi undertaken to homes

99.73%
o archwiliadau larwm carbon monocsid (CO

Llety ymddeol / fflatiau:

100%
o asesiadau risg dŵr ar gyfer Legionella

100%
o offer lifftiau teithwyr

100%
o asesiadau risg tân

100%
o archwiliadau gwasanaeth lifftiau grisiau

DChGN

Helpodd tenantiaid i lunio ein Polisi Balconi newydd

Gwnaethom siarad â phreswylwyr mewn bore coffi yng Nghwrt Hafren yng Nghil-y-coed ac anfon arolwg i bob un o'r **157** o gartrefi â balconi. Cawsom **57** o ymatebion, ac roedd pawb a ymatebodd yn cefnogi cael polisi clir. Roedd yr adborth hefyd yn dangos lle byddai cyngor ychwanegol yn helpu, gan gynnwys atgoffa tenantiaid i adrodd am beryglon, goruchwylio plant ac anifeiliaid anwes, ac osgoi defnyddio balconïau ar gyfer barbeciw. O ganlyniad, mae'r polisi'n canolbwyntio ar helpu tenantiaid i ddefnyddio eu balconïau'n ddiogel, wedi'i ategu gan daflenni clir, gwybodaeth Llawlyfr Tenantiaid a diweddariadau diogelwch tân.


HEOL GWYNDAF



Cipolwg ar Stoc MHA

Ar 31 Mawrth 2026, roedd MHA yn berchen ar, yn rheoli, neu'n gyfrifol am **4,218** o gartrefi, sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau o lety. Mae'r tabl isod yn rhoi disgrifiad byr o bob math, ynghyd â nifer y cartrefi oedd gennym ar ddiwedd y flwyddyn.

Math o lety	Disgrifiad byr	Ar 31 Mawrth 2026
Cartrefi rhent cymdeithasol	Cartrefi a osodir am rent fforddiadwy, sy'n is na lefelau'r farchnad.	3,943
Tai rhent canolradd	Cartrefi a osodir am rent sy'n is na rhent arferol y farchnad, ar gyfer pobl sydd angen opsiwn fforddiadwy.	43
Llety tai â chymorth	Cartrefi sy'n cynnig cymorth ychwanegol i helpu pobl i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol.	12
Cartrefi rhent marchnad	Cartrefi a osodir am y gyfradd rhent preifat arferol ar gyfer yr ardal leol.	11
Cartrefi lesddaliad	Cartrefi lle mae gan MHA gyfrifoldebau dros ardaloedd a rennir, gwasanaethau a rheolaeth yr adeilad.	209

Gweithio yn y cymunedau lle rydych chi'n byw

DCHGN Astudiaeth Achos

Cartref mwy diogel, dechrau newydd

Pan godwyd pryderon ynghylch cartref teuluol a llesiant y plant oedd yn byw yno, gweithiodd ein tîm gyda'r tenant ac asiantaethau partner i ailadeiladu ymddiriedaeth a chytuno ar y cymorth priodol.

Gan ddefnyddio dull cefnogol sy'n ystyriol o drawma, buom yn cydweithio â Gwasanaethau Plant ac eraill er mwyn i'r ddarpariaeth dai fod yn rhan o gynllun ehangach i helpu'r teulu.

Cafodd gwaith atgyweirio ei wneud, ariannwyd sgip i helpu i gael gwared ar eitemau diangen yn ddiogel, a chafodd y teulu gymorth i symud pan oedd angen gwaith mwy helaeth ar y cartref.

Gwellodd y dull partneriaeth gyfathrebu, creodd amgylchedd byw mwy diogel, a helpodd y teulu i gael dechrau newydd a chadarnhaol.



Adeiladu ar gyfer y dyfodol:

Datblygiadau a chartrefi a adeiladwyd

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael yn Sir Fynwy ac yn y dyfodol, byddwn yn yr ardaloedd cyfagos fel Torfaen a Chasnewydd. Mae'r galw am dai yn parhau i fod yn uchel, ac mae adeiladu mwy o gartrefi yn rhan bwysig o'n cynllun hirdymor.

Eleni fe wnaethom adeiladu, caffael a datblygu nifer o gartrefi i helpu i ddiwallu anghenion lleol. Fe wnaethom hefyd barhau i archwilio cyfleoedd mewn meysydd newydd, gan gefnogi ein huchelgais i dyfu'n ofalus tra'n parhau i fuddsoddi mewn cartrefi a gwasanaethau presennol.

Wedi'i gwblhau neu wrthi'n cael ei adnewyddu i fodloni safonau SATC:

Datblygiad / ardal	Math o gartrefi	Nifer y cartrefi	Cam	Disgwylir ei gwblhau / wedi'i gwblhau
Cartrefi yn Sir Fynwy	Eiddo cymdeithasol ar rent	17	Wedi'i gwblhau neu wrthi'n cael ei adnewyddu i fodloni safonau SATC	3 yn 2025/26 14 yn 2026/27
Cartrefi yng Nghasnewydd	Eiddo cymdeithasol ar rent	11	Wedi'i gwblhau neu wrthi'n cael ei adnewyddu i fodloni safonau SATC	5 yn 2025/26 6 yn 2026/27
Cartrefi yn Nhorfaen	Eiddo cymdeithasol ar rent	2	Wedi'i gwblhau neu wrthi'n cael ei adnewyddu i fodloni safonau SATC	1 yn 2025/26 1 yn 2026/27
Rockfield Farm (gogledd), Undy	Eiddo cymdeithasol ar rent	32	Wedi'i gwblhau	Mawrth 2026
Ysgol Cil-y-coed, Cil-y-coed	Eiddo cymdeithasol ar rent	46	Dechreuwyd ar y safle – Chwefror 2026	Tachwedd 2027
Mynwy	Eiddo cymdeithasol ar rent	50	Dechreuwyd ar y safle – Mawrth 2026	Mai 2028
Banc Mon, Casnewydd	Eiddo cymdeithasol ar rent	42	Safle wedi'i gaffael – Mawrth 2026	Rhagfyr 2027
Wheatfield Close, Mynwy	Eiddo cymdeithasol ar rent	13	Caniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo – Mawrth 2026	Ebrill 2028

Yma pan oedd ei angen fwyaf: Cefnogi pobl drwy'r llifogydd

Pan darodd llifogydd difrifol Drefynwy ym mis Tachwedd 2025, gorfodwyd llawer o bobl o'u cartrefi yng nghanol y nos heb fawr o rybudd neu ddim rhybudd o gwbl. Nid oedd gan rai fynediad at feddyginiaeth, dillad cynnes, bwyd, ffonau, anifeiliaid anwes nac eiddo personol, a llawer o'r rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf oedd pobl hŷn neu denantiaid yn byw mewn cartrefi wedi'u haddasu.

Erbyn 8yb fore Sadwrn, roeddem wedi dod â thîm digwyddiadau amlddisgyblaethol ynghyd ac wedi anfon cydweithwyr i ganolfan achub Trefynwy. Darparodd staff gymorth tawel, wyneb yn wyneb a helpu pobl i gael mynediad at lety brys, meddyginiaeth, bwyd, dillad, cyswllt teuluol a chymorth i anifeiliaid anwes.

Dros y dyddiau canlynol, roedd cydweithwyr yn weladwy yn y strydoedd yr effeithiwyd arnynt, yn cynnal gwiriadau llesiant, yn dosbarthu bwyd, diodydd poeth a chyflenwadau hanfodol, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl drwy sgyrsiau uniongyrchol, gwybodaeth ysgrifenedig, cyfryngau cymdeithasol a chymorth dros y ffôn. Gwnaethom hefyd weithio'n agos gyda Chyngor Sir Fynwy, Cyfoeth Naturiol Cymru, gwirfoddolwyr, busnesau lleol a chyllidwyr i gydlynu cymorth ymarferol.

- Roedd pob tenant MHA a oedd wedi gorfod gadael eu cartrefi wedi cael eu lleoli a'u symud i le diogel erbyn nos Sadwrn.
- Cafodd **18** aelwyd a effeithiwyd yn ddifrifol gymorth drwy ddarparu gwestai, llety Airbnb, cyfleusterau storio a llety tymor hwy.
- Dynodwyd aelod penodol o staff i bob aelwyd yr effeithiwyd arni, a rhoddwyd diweddariadau parhaus iddynt wrth i'w hanghenion newid.
- Cafodd pobl gymorth i gael mynediad at gyllid cymorth, cysylltu â chwmnïau yswiriant, amnewid eitemau hanfodol, ailgyfeirio post a biliau, trefnu lle i storio eiddo, a derbyn talebau bwyd cyn y Nadolig.
- Cafodd yr holl denantiaid yr effeithiwyd arnynt eu hailsefydlu mewn llety addas tymor hwy erbyn y Nadolig.

I rai pobl, newidiodd y llifogydd bopeth. Roedd llawer wedi colli bron eu holl eiddo ac nid oedd gan rai yswiriant cynnwys cartref. Fe wnaethon ni gefnogi pobl gyda chymorth ymarferol ac opsiynau tai a oedd yn addas i'w hamgylchiadau, gan gynnwys symudiadau parhaol lle'r oedd hyn yn ddewis cywir iddyn nhw.

Mewn argyfwng, mae cyfathrebu'n ymwneud â mwy na gwybodaeth. Mae'n ymwneud â bod yn bresennol, lleihau ofn, gwrando a helpu pobl i gymryd y cam nesaf pan fydd eu bywydau wedi'u troi wyneb i waered.



Ein Pobl

Mae 'Ein Pobl' yn ymwneud â'r cymorth, y gwasanaethau a'r cyfleoedd sy'n helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu clywed, eu bod yn cael eu cynnwys, yn ddiogel ac yn gallu byw'n dda. Eleni, mae hynny wedi cynnwys cryfhau llais tenantiaid drwy ein 2 grŵp o breswylwyr, helpu pobl i fynd ar-lein, cefnogi aelwydydd drwy bwysau ariannol, a gweithio gyda phobl i gynnal eu cartrefi a'u tenantiaethau.

Mae'r adran hefyd yn amlygu cymorth tai a llesiant, hyfforddiant tenantiaeth, cymorth i drigolion hŷn, diogelwch cymunedol, cydraddoldeb a chynhwysiant, a'n paratoadau ar gyfer Safonau'r Gymraeg. Gyda'i gilydd, mae'r straeon hyn yn dangos sut y gall cymorth ymarferol, gwrando a gweithio mewn partneriaeth wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

DChGN Astudiaeth Achos

Helpu pobl i fynd ar-lein gydag iConnect

Eleni, fe wnaeth ein prosiect iConnect helpu pobl i fagu hyder, mynd ar-lein a theimlo'n fwy cysylltiedig. Rhwng Gorffennaf 2025 a Mawrth 2026, ymgysylltodd y prosiect â **142** o bobl drwy weithdai, digwyddiadau, sesiynau galw heibio, allgymorth a chymorth un-i-un. O'r rhain, cafodd **122** gymorth uniongyrchol gyda sgiliau digidol, mynediad ar-lein, cysylltedd, cyflogaeth, cyllid, hyfforddiant neu lesiant. Roedd y prosiect hefyd yn darparu neu'n benthyca **56** o ddyfeisiau, gan gynnwys ffonau, llechi, gliniaduron, unedau MiFi, cardiau SIM a blychau cysylltedd WiFi.

Dechreuwyd 110 o arolygon a chwblhawyd 61 yn llawn, gan ein helpu i ddeall y gwahaniaeth a wnaeth y prosiect.

Dywedodd 100% o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg gwerthuso fod eu sgiliau digidol wedi gwella.

Cefnogwyd pedwar cartref i wneud cais am y Warant Allforio Clyfar, ac amcangyfrifir y byddai pob cartref yn arbed tua £190 y flwyddyn ar filiau ynni.

Rhoddodd benthyciadau hyblyg offer tri mis amser i bobl fagu hyder cyn penderfynu pa gymorth digidol tymor hwy yr oedd ei angen arnynt.

Roedd y cymorth yn ymarferol ac yn bersonol. Cafodd pobl gymorth i gael mynediad at fancio ar-lein, pensiynau, apwyntiadau iechyd, Credyd Cynhwysol, MyMHA, galwadau fideo, hyfforddiant, cyfleoedd cyflogaeth a gwasanaethau ar-lein. Dywedodd pawb a gwblhaodd yr arolwg gwerthuso fod eu sgiliau digidol wedi gwella.

I lawer o bobl, nid mynd ar-lein yn unig oedd y gwahaniaeth mwyaf, ond teimlo'n llai unig ac yn fwy annibynnol. Rhoddodd grwpiau Te a Thechnoleg, sesiynau galw heibio digidol a sesiynau cymunedol le hamddenol i'r rhai a gymerodd ran ddysgu, gofyn cwestiynau a chefnogi ei gilydd. Fel y disgrifiodd un person, fe helpodd technoleg i "agor drws" i deulu, ffrindiau, gwasanaethau a chymorth.

iConnect
The digital world at your fingertips

Cymorth i'ch helpu i fyw'n dda Gartref

Gall y cymorth cywir ar yr amser cywir helpu tenantiaid i deimlo'n fwy diogel, yn fwy sefydlog ac yn fwy abl i reoli eu cartref, eu llesiant a'u hannibyniaeth.

Cefnogodd ein gwasanaeth Tai a Llesiant **89** o bobl yn ystod y flwyddyn trwy gymorth un-i-un a chyngor galw heibio. Helpodd y tîm **47** o bobl i gynnal llety sefydlog yn annibynnol a chefnogodd eraill sy'n wynebu digartrefedd, cael eu troi allan neu sefyllfaoedd tai anodd i gael mynediad at opsiynau mwy diogel a sefydlog.

Mae cymorth wedi'i deilwra i bob person, o fudd-daliadau a grantiau i ddiogelu, cyngor llesiant neu gymorth i ddod o hyd i lety mwy diogel.

Dywedodd un preswylydd wrthym:

"Dw i'n teimlo'n ddiogel am y tro cyntaf ers blynyddoedd."

Hyfforddiant tenantiaeth:

Cefnogodd hyfforddwyr tenantiaeth **112** o denantiaid, gan gynnwys **77** yn derbyn hyfforddiant a **35** wedi'u hatgyfeirio oherwydd pryderon lles. Mae'r gwasanaeth yn helpu pobl i fagu hyder, gwella cyflwr eiddo, ymateb i gardiau pryder a chynnal eu tenantiaeth, gyda hyfforddwyr yn ymateb i gardiau pryder o fewn **24** awr.



Llesiant a Chymorth Ariannol

Gwyddom fod costau byw wedi parhau i roi pwysau ar lawer o aelwydydd eleni. Bu ein timau llesiant ariannol a chynhwysiant yn gweithio gyda phobl ar draws Sir Fynwy i helpu i wneud y mwyaf o incwm, cael mynediad at fudd-daliadau a grantiau, lleihau caledi a chadw tenantiaethau ar y trywydd iawn.



£1.74m

o incwm wedi'i sicrhau ar gyfer pobl drwy ein gwasanaethau cynhwysiant.



£118,539

o gymorth caledi wedi'i sicrhau i helpu aelwydydd oedd yn wynebu pwysau ariannol.



£25,040

o arian caledi mewnol wedi'i ddosbarthu.



1,459

o ymyriadau cysylltiedig â chaledi yn ystod y flwyddyn.



567

o dalebau siopa wedi'u darparu i helpu pobl gyda chostau hanfodol.



Cwblhaodd **101**

o bobl o 50 sefydliad hyfforddiant ar Hyder ynglŷn â Chostau Byw; mae hyn yn helpu gweithwyr rheng flaen i adnabod pryd y gallai rhywun fod angen cymorth ychwanegol, ac i'w cyfeirio at y cymorth sydd ar gael.

Roedd y cymorth yn cynnwys help gyda bwyd, tanwydd, eitemau cartref hanfodol, grantiau argyfwng, budd-daliadau lles, a lleihau dyledion. I rai aelwydydd, roedd hyn yn golygu bod yr anghenion sylfaenol wedi'u diwallu yn ystod cyfnod anodd. I eraill, helpodd i gynyddu incwm, lleihau pryder, a gwneud pethau'n haws iddynt aros yn ddiogel ac yn sefydlog yn eu cartrefi.

"Roedd y bagiau brecwast yn achubiaeth yn ystod y gwyliau. Roedd gwybod bod y pethau sylfaenol wedi'u darparu yn lleddfu'r pwysau."



Cymorth i drigolion hŷn:

Parhaodd Swyddogion Byw yn y Gymuned i gefnogi preswylwyr yn ein cynlluniau gyda llesiant, diogelwch ac annibyniaeth. Roedd hyn yn cynnwys asesiadau risg tân sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ymgysylltu â diogelwch tân, uwchraddio larymau gofal digidol a gwelliannau i'r cynllun megis y lolfa gymunedol wedi'i hadnewyddu yng Nghae Pen y Dre.

Mae un enghraifft yn dangos sut y gall y cymorth hwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Ar ôl marwolaeth ei gŵr, daeth un preswylydd hŷn yn fwyfwy ynysig. Trwy ymweliadau llesiant rheolaidd, bu ei Swyddog Byw yn y Gymuned yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i drefnu teithiau siopa hebrwng, cyfleoedd dysgu, gweithgareddau cymdeithasol a chymorth ymarferol. Fe wnaeth hyn ei helpu i aros yn actif yn ei chymuned ac aros yn annibynnol gartref yn hirach. Mae hefyd yn helpu gyda:

- Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd.
- Mwy o gyfranogiad cymunedol.
- Gwell llesiant a hyder.
- Ei helpu i aros yn ddiogel yn ei fflat am gyhyd ag y bo modd.
- Cefnogi symudiad wedi'i gynllunio pan newidiodd ei hanghenion gofal.

"Diolch am y cyfathrebu trwy gydol ein cymorth. Yn bendant, fe wnaeth ei helpu i gael cymorth i aros yn ei fflat cyhyd ag y gallai."

– Asesydd Gofal Cymdeithasol

Eich cadw'n ddiogel yn eich cymuned

Bu ein Tîm Diogelwch Cymunedol yn gweithio gyda phreswylwyr, tenantiaid, cydweithwyr ac asiantaethau partner trwy gydol y flwyddyn i helpu pobl i deimlo'n fwy diogel gartref ac yn eu cymdogaethau. Roedd y tîm yn cefnogi pobl yr effeithir arnynt gan ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig, pryderon diogelu a materion eraill a all effeithio ar ddiogelwch a llesiant.

DChGN

Yn dilyn lefelau bodlonrwydd is yn yr arolwg diwethaf, adolygwyd y gwasanaeth hwn i ddeall yn well beth oedd yn gweithio'n dda a lle'r oedd angen gwelliannau. O ganlyniad, fe wnaeth adborth ein helpu i ganolbwyntio ar gyfathrebu cliriach, trosolwg cryfach o achosion a diweddariadau mwy cyson.

660

o achosion diogelwch cymunedol wedi'u rheoli yn ystod y flwyddyn.

397

o achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u cefnogi, gan gynnwys achosion newydd ac achosion wedi'u hailagor.

119

o achosion cam-drin domestig wedi'u cefnogi, gyda'r rhan fwyaf yn atgyfeiriadau newydd.

125

o achosion mynediad diogelwch wedi'u rheoli, gan ein helpu i gwblhau gwiriadau nwy a thrydan pwysig.

1,089

o gofnodion Ap Sŵn a 1,166 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi i helpu i ddeall yr effaith ar bobl ac adeiladu tystiolaeth lle bo angen.

Mae'r rhan fwyaf o achosion yn cael eu datrys trwy gyngor, cymorth, sicrwydd a gweithio mewn partneriaeth. Lle mae ymddygiad yn achosi niwed neu risg, rydym hefyd yn cymryd camau gweithredu mwy cadarn i warchod pobl a chymunedau.



89

o lythyrau rhybuddio wedi'u cyhoeddi lle'r oedd angen newid ymddygiad.



31

o hysbysiadau cyfreithiol wedi'u defnyddio i helpu i reoli risg a niwsans difrifole.



8

canlyniad llys difrifol wedi'u sicrhau, gan gynnwys gorchmynion meddiannu a gwaharddebau.



12

cais gosod i gefnogi opsiynau tai mwy diogel wedi'u gwneud lle bo angen.



3

chytundeb ymddygiad wedi'u rhoi ar waith i helpu i osod disgwyliadau clir.

Buom hefyd yn canolbwyntio ar gymorth ymarferol i bobl y mae materion diogelwch cymunedol yn effeithio arnynt, gan gynnwys atgyfeiriadau am gymorth, digwyddiadau tawelu meddwl a mesurau diogelwch ychwanegol mewn cartrefi ac o'u cwmpas.



79.63%

Bodlonrwydd achosion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.



97

o gartrefi wedi derbyn cymorth diogelwch yn y cartref ychwanegol, gan gynnwys teledu cylch cyfyng, camerâu clychau drws a larymau.



25

o atgyfeiriadau cwnsela, 6 atgyfeiriad cyfryngu a 48 atgyfeiriad cymorth ehangach wedi'u gwneud.



18

o unedau Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) wedi'u defnyddio ar draws ein cymunedau, gan gynnwys 3 uned newydd neu wedi eu hadleoli.



7

digwyddiad neu weithgaredd sicrwydd cymunedol wedi'u cydlynu.

Cadw ein cymunedau'n fywiog

Cyflwyno eich cynrychiolwyr...

Y Grŵp Llais y Gymuned!

Mae Llais y Gymuned wedi parhau i wneud cynnydd gwirioneddol eleni. Mae'r grŵp wedi croesawu aelodau newydd, penodi Cadeirydd newydd a chytuno ar ei gynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'n darparu cyswllt uniongyrchol rhwng trigolion a gwneuthurwyr penderfyniadau, gan helpu i sicrhau bod barn tenantiaid a lesddeiliaid yn cael ei chlywed pan fydd gwasanaethau'n cael eu llunio a'u gwella.



Rhagair gan Gadeirydd Llais y Gymuned:

Pan ddeuthum yn Gadeirydd Pwyllgor Llais y Gymuned, gwnes i hynny oherwydd fy mod yn credu y dylai tenantiaid gael llais gwirioneddol wrth lunio'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt.

Mae Llais y Gymuned yn helpu i sicrhau nad yw trigolion yn cael gwybod am benderfyniadau ar ôl iddynt gael eu gwneud yn unig, ond eu bod yn rhan o'u llunio. Ochr yn ochr â'r Gyfnewidfa, mae'n rhoi ffordd uniongyrchol i bobl godi materion, rhannu profiadau a herio MHA lle gall pethau fod yn well.

Eleni, mae lleisiau tenantiaid wedi helpu i ddylanwadu ar bolisi, gwelliannau i wasanaethau, a'r sgyrsiau rydym yn eu cael gyda'r Bwrdd ynghylch yr hyn sydd bwysicaf – o waith atgyweirio a chyfathrebu i'r safonau y mae MHA yn eu gosod iddi hi ei hun fel landlord. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi rhoi eu hamser, eu barn a'u hegni i'r gwaith hwn.

Wrth i MHA symud ymlaen fel Grŵp Tai Awen, bydd llais cryf gan breswylwyr yn bwysicach nag erioed. Mae angen ffyrdd clir ac ystyrlon ar sefydliad mwy i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed, a bydd Llais y Gymuned yn parhau i hyrwyddo hynny.

"Os nad ydych wedi cymryd rhan o'r blaen, hoffwn eich annog i ymuno. Eich cartrefi chi, eich gwasanaethau chi a'ch cymuned chi yw'r rhain – a pho fwyaf o denantiaid a lesddeiliaid sy'n cymryd rhan, cryfaf fydd y llais hwnnw".

Mark Howells **– Cadeirydd, Pwyllgor Llais y Gymuned**

Cyflawniadau Llais y Gymuned yn 2025/2026

- Wedi llunio adolygiadau o atgyweiriadau, diogelwch cymunedol a llais tenantiaid.
- Wedi gwella cyfranogiad tenantiaid trwy fwy o gyfarfodydd, Cylch Gorchwyl wedi'i adnewyddu a chysylltiadau cryfach â'r Bwrdd.
- Wedi helpu i lunio negeseuon tenantiaid ar gyfer ail-frandio Awen.
- Wedi gwneud gwybodaeth am rent a thâl gwasanaeth yn gliriach.
- Wedi cefnogi sicrwydd rheoleiddiol trwy weithdai canlyniadau tenantiaid.
- Wedi cyfrannu at drafodaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) a diweddariadau cynllun gweithredu.
- Wedi rhannu barn tenantiaid ar recriwtio, partneriaethau iechyd, cynhwysiant digidol a mannau gwyrdd.
- Wedi cytuno ar flaenoriaethau gwasanaeth a chynllun gwaith 12 mis.
- Wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau gwrth-hiliol, troseddau casineb a lansio'r Gyfnewidfa.

CYMERADWYWYD GAN LLAIS Y GYMUNED

Cyn i ni gyhoeddi'r adolygiad hwn, darllenodd aelodau o'n grŵp Llais y Gymuned ef a rhannu eu barn â ni..

Roeddent yn falch o weld y cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y flwyddyn, ond cawsom ein hatgoffa ganddynt hefyd i gadw'r wybodaeth yn glir, egluro acronymau, osgoi gormod o fanylion lle bo modd, a chynnwys lesddeiliaid lle mae hynny'n berthnasol. Mae eu hadborth wedi ein helpu i wneud yr argraffiad hwn yn gliriach ac yn fwy cynhwysol.

Yn ogystal â Llais y Gymuned, lansiwyd Y Gyfnewidfa – ffordd newydd a hyblyg i denantiaid gymryd rhan heb orfod ymuno â phwyllgor ffurfiol. Roedd y lansiad yn cynnwys ein digwyddiad 'Social Snowball', a helpodd i ledaenu'r neges, cychwyn sgyrsiau ac annog mwy o bobl i gymryd rhan. Eleni, cofrestrodd 210 o denantiaid, gan roi mwy o ffyrdd i bobl rannu eu barn, cymryd rhan mewn sgyrsiau a dylanwadu ar benderfyniadau.

Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill, a bydd digon o ffyrdd gwahanol i gymryd rhan – o rannu eich barn ac ymuno â sgyrsiau, i gymryd rhan mewn digwyddiadau, prosiectau neu Y Gyfnewidfa. I gael gwybod mwy, cysylltwch â'n Tîm Ymgysylltu.

Y Gyfnewidfa ac ymgysylltu ar waith

Eleni, daeth ein gwaith ymgysylltu â phobl ynghyd ar draws Sir Fynwy i rannu barn, llunio blaenoriaethau lleol a chryfhau cymunedau. Cymerodd 1,890 o bobl ran mewn 48 o ddigwyddiadau cymunedol a ddatblygwyd ar y cyd, gan helpu i droi sgyrsiau lleol yn gamau gweithredu ymarferol.

Helpodd Y Gyfnewidfa hefyd i greu cysylltiad cliriach rhwng adborth dyddiol gan denantiaid, Llais y Gymuned, a'r penderfyniadau a wnawn fel sefydliad. Fe wnaethom gefnogi 19 o denantiaid i fynychu cyrsiau hyfforddi, gan helpu i feithrin sgiliau, hyder a chyfleoedd.

Arweiniodd ymglymiad cymunedol hefyd at fuddsoddiad a gwerth ehangach; sicrhawyd **£107,500** o gyllid allanol ar gyfer prosiectau a arweinir gan y gymuned, **£53,540** drwy Fuddion Cymunedol, a **21,232** o oriau gwirfoddoli a gyfrannodd werth cymdeithasol amcangyfrifedig o **£258,022**.



Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

Dylai pawb allu cael mynediad at ein gwasanaethau mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw. Eleni rydym wedi canolbwyntio ar wneud ein gwybodaeth, ein cymorth a'n gwasanaethau'n gliriach, yn decach ac yn haws i'w defnyddio, gyda ffocws penodol ar wella cymorth i bobl anabl.

Gallwch ddarllen mwy am ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar ein gwefan, gan gynnwys yr hyn rydym yn ei wneud i gynnwys tegwch a chynhwysiant mewn gwasanaethau bob dydd.



Rydym hefyd yn datblygu Cynllun Gwrth-Hiliaeth a Throseddau Casineb tair blynedd. Byddwn yn gweithio gyda chymunedau, asiantaethau cymorth, Llais y Gymuned a phartneriaid lleol fel bod y cynllun yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir ac yn helpu i gael gwared ar rwystrau i'n gwasanaethau. Bydd y cynllun newydd yn ymddangos ar ein gwefan dros y misoedd nesaf.

Cynnydd hyd yma:

- Gwneud defnydd gwell o asesiadau effaith cydraddoldeb wrth ddatblygu polisïau, prosiectau a gwasanaethau.
- Gwella mynediad at asiantaethau cymorth a chymorth cyfathrebu, gan gynnwys Llinell Iaith.
- Datblygu llawlyfr contractwyr fel bod partneriaid sy'n gweithio yn ac o amgylch cartrefi yn deall ein hegwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiant.
- Cefnogi digwyddiadau Pride a chyflawni Achrediad Arloeswyr Tai LGBTQ+ Stonewall.
- Adolygu'r iaith yn ein taflenni gwybodaeth fel eu bod yn gliriach ac yn fwy cynhwysol.
- Darparu hyfforddiant gwrth-hiliaeth i aelodau'r Bwrdd, Llais y Gymuned a rheolwyr.
- Codi ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth gyda chydweithwyr, gyda hyfforddiant pellach i reolwyr wedi'i gynllunio.

Safonau'r Gymraeg

Fe wnaethom ni barhau i baratoi ar gyfer Safonau'r Gymraeg, a fydd yn disodli ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau y gall pobl gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau yn y Gymraeg lle bo angen.

Mae hefyd yn golygu cael dull clir ac ymarferol ar gyfer tenantiaid, ymgeiswyr, partneriaid, contractwyr, cydweithwyr ac eraill yr ydym yn gweithio gyda nhw.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ni arolygu polisïau, prosesau ac anghenion cyfathrebu, gan gynnwys gwybodaeth ysgrifenedig, llwybrau cyswllt, ceisiadau yn y Gymraeg a sut mae timau'n ymgorffori hyn mewn gwasanaethau bob dydd.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i denantiaid wrth i'r gwaith hwn ddatblygu ac yn sicrhau bod gan gydweithwyr yr arweiniad a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Os byddai'n well gennych i ni gyfathrebu â chi yn Gymraeg ac nad ydych eisoes wedi dweud wrthym, siaradwch â Thîm y Ganolfan Alwadau pan fyddwch yn cysylltu â ni.

Ein Ffyniant

Daw'r rhan fwyaf o'n hincwm o rent, felly mae'n bwysig inni ddangos sut y caiff ei wario a sut y mae o fudd i gartrefi, gwasanaethau a chymunedau. Eleni fe wnaethom barhau i fuddsoddi mewn cartrefi presennol, adeiladu tai fforddiadwy newydd a chefnogi pobl trwy bwysau ariannol.

Rydym hefyd yn adrodd ar gwynion, rheoleiddio a gwerth am arian oherwydd mae bod yn agored am berfformiad yn helpu i feithrin ymddiriedaeth ac yn dangos lle rydym yn gwella.

O ble y daw ein harian a sut rydym yn ei wario

Mae eich rhent yn helpu i ariannu gwaith cynnal a chadw a gwelliannau i'ch cartrefi, gwasanaethau a chymorth a ddarparwn. Rydym hefyd yn derbyn incwm o ffynonellau eraill, gan gynnwys grantiau'r Llywodraeth ac arian o gartrefi rydym yn eu hadeiladu a'u gwerthu. Mae taliadau gwasanaeth yn helpu i dalu am wasanaethau a rennir fel ardaloedd cymunedol, cynnal a chadw tiroedd, gwiriadau diogelwch a chostau sy'n gysylltiedig ag adeiladau .

Incwm 2025/2026

O ble mae ein harian yn dod:

- Rhenti derbyniadwy - **£24.728m**
- Incwm o Daliadau Gwasanaeth - **£578k**
- Incwm ar gyfer Gwasanaethau Cymorth - **£148k**
- Grantiau Llywodraeth wedi'u hamorteiddio - **£2.693m**
- Incwm arall - **£460k**

Cyfanswm Incwm: **£28,607**

Gwariant 2025/2026

Ar beth wnaethom ni wario ein harian:

- Costau rheoli - **£5.590m**
- Costau taliadau gwasanaeth - **£695k**
- Cynnal a chadw arferol - **£10.322m**
- Atgyweiriadau mawr - **£2m**
- Dyledion drwg - **£181k**
- Dibrisiant eiddo tai - **£6.088m**
- Costau eraill - **£638k**

Cyfanswm y gwariant: **£25,514**

Cadw ôl-ddyledion rhent yn isel a chefnogi tenantiaid

Rhent yw ein prif ffynhonnell incwm ac mae'n helpu i dalu am atgyweiriadau, gwiriadau diogelwch, cartrefi newydd a chymorth i gymunedau.

Rydym yn canolbwyntio ar gymorth rhent cynnar, gan helpu tenantiaid i wirio eu hawl i fudd-daliadau, cytuno ar gynlluniau talu fforddiadwy a chael mynediad at gyngor ar arian neu ddyled lle bo angen. Mae cadw ôl-ddyledion rhent yn isel yn helpu tenantiaid i aros yn eu cartrefi ac yn amddiffyn y gwasanaethau a ddarparwn.

Ein safbwynt: Arhosodd ôl-ddyledion rhent yn isel yn 2025/26 ar **1.51%**, o'i gymharu ag **1.97%** yn 2024/25.

Cwrdd ag aelodau ein Bwrdd

Daw aelodau ein Bwrdd o bob cefndir, nid yn unig o'r sector tai cymdeithasol. Mae hyn yn ein helpu i weld y darlun ehangach ac edrych ar bethau o safbwynt gwahanol. Maent yn gosod ein strategaeth gorfforaethol ac yn ein herio i fod y gorau y gallwn fod.



Anthony **Deakin**
Cadeirydd Grŵp MHA



Dimitri **Batrouni**
Is-Gadeirydd Grŵp MHA



Colin **Lewis**
Aelod Bwrdd y Grŵp a Chadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau



John **Miller**
Aelod Bwrdd y Grŵp ac Is-Gadeirydd, Bwrdd Capsel



Cael **Sendell-Price**
Aelod Bwrdd y Grŵp a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio



Lynda **Campbell**
Aelod Bwrdd y GrŵpaChadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Phobl



Nicola **Tindale**
Aelod Bwrdd y GrŵpaChadeirydd y Pwyllgor Datblygu



Tim **Jackson**
Aelod Bwrdd y Grŵp



Ann **Cornelius**
Aelod Bwrdd y Grŵp



Julie **Evans**
Aelod Bwrdd y Grŵp



Kalwant **Grewal**
Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio (hyd at 31/01/2026)



Mark **Howells**
Aelod Annibynnol o'r Bwrdd – Llais y Gymuned



Yn haf 2025, gadawodd John Keegan – a helpodd i sefydlu MHA yn 2008 ac sydd wedi arwain y sefydliad ers hynny – ar 31 Awst 2025, yn dilyn cyfnod o salwch. Mae John wedi gwneud cyfraniad parhaol i MHA ac i'n cymunedau, ac rydym yn dymuno'r gorau iddo ar gyfer ymddeoliad haeddiannol!

Darparodd Gwyndaf Tobias, ein Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Adnoddau, arweinyddiaeth dros dro yn ystod cyfnod absenoldeb John, a chafodd ei benodi'n swyddogol fel y Prif Weithredwr newydd ar 28 Hydref 2025. Caiff ei gefnogi gan y Cyfarwyddwyr ac uwch arweinwyr.

Cwrdd â'n Huwch-dîm Rheoli

Mae ein Cyfarwyddwyr yn ein harwain ac yn ein hysbrydoli drwy hyrwyddo ein gweledigaeth a strategaeth y cwmni gyda brwdfrydedd mawr a llawer o gymorth!



Gwyndaf **Tobias**
Prif Weithredwr (o 28/10/25



Julie **Stone**
Cyfarwyddwr Adnoddau ac Ysgrifennydd y Cwmni



Michele **Morgan**
Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau



Karen **Tarbox**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo (o 10/02/2026)



Chris **Kinsey**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Eiddo (Datblygu) a Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro Capsel Limited



Becky **Oliver**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Eiddo (Asedau) (hyd at 31/03/26)

Sut rydym yn cael ein Rheoleiddio...

Mae Llywodraeth Cymru yn rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru i sicrhau eu bod yn cael eu llywodraethu'n dda, yn hyfyw yn ariannol, ac yn darparu cartrefi a gwasanaethau o ansawdd da. O dan y Fframwaith Rheoleiddio presennol, mae landlordiaid yn cael dyfarniadau ar gyfer Llywodraethu a Hyfywedd Ariannol, gan ddefnyddio pedwar categori lliw. Mae'r tabl isod yn egluro ystyr pob categori:

Gwyrdd	**Yn bodloni'r safonau**	Mae'r landlord yn gwneud yr hyn a ddisgwylir ac yn cael ei wirio'n rheolaidd
Melyn	**Angen rhywfaint o welliant**	Mae'r landlord yn bodloni rhai safonau ac mae angen iddo wella, gyda gwiriadau mwy manwl.
Ambr	**Angen gwelliant sylweddol**	Mae'n annhebygol y bydd y landlord yn gwella digon heb gymorth gan y rheoleiddiwr.
Coch	**Angen camau gweithredu**	Nid yw'r landlord yn bodloni'r safonau ac mae angen camau gweithredu ffurfiol.

Yn gynharach eleni, cwblhawyd ein hasesiad, ac rydym yn falch o adrodd bod MHA wedi cael dyfarniad cydymffurfio Gwyrdd (Llywodraethu a Chyllid). Byddwn yn parhau i ddefnyddio adborth gan denantiaid, Llais y Gymuned a'r Gyfnewidfa i wella cartrefi a gwasanaethau.



Cwynion a dysgu

Mae cwynion yn ein helpu i ddeall ble mae pethau wedi mynd o'i le a beth sydd angen ei wella. Rydym am i drigolion deimlo'n hyderus bod cwynion yn cael eu clywed, eu hymchwilio'n briodol, a'u defnyddio i wella gwasanaethau.

Cwynion ffurfiol

2024/2025: 20 | 2025/26: 19

Ceisiadau am iawndal

2024/2025: 11 | 2025/26: 17

Ymatebwyd o fewn y targed

2024/2025: 90% | 2025/26: 53.85

DChGN

Rydym yn defnyddio cwynion i wneud gwelliannau ymarferol i wasanaethau, gan gynnwys:

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i denantiaid yn ystod atgyweiriadau, caniatadau a chwynion.
- Gwneud llythyrau a phenderfyniadau'n gliriach, yn fwy empathig ac yn haws eu deall.
- Cryfhau'r oruchwyliaeth o achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol ac asesiadau risg.
- Cofnodi penderfyniadau allweddol a nodiadau cyswllt yn fwy cyson.
- Gwella hyfforddiant staff ar alwadau anodd, ceisiadau olyniaeth a chyfathrebu â chwsmeriaid.
- Adolygu prosesau lle gall oedi ddigwydd, gan gynnwys cyflenwi negeseuon llais ac ymholiadau brys.

*Gostyngodd amseroedd ymateb i gwynion eleni oherwydd capasiti staff a phwysau ychwanegol yn y Gwasanaethau Eiddo. Mae cymorth ychwanegol bellach ar waith, mae perfformiad wedi gwella, a byddwn yn parhau i fonitro amseroedd ymateb yn agos.

Buddsoddi mewn syniadau cymunedol

Eleni, helpodd ymgysylltu i sicrhau **£161,040** i gymunedau drwy gyllid allanol a Buddion Cymunedol. Helpodd y cymorth hwn brosiectau a arweiniwyd gan y gymuned, grwpiau lleol a hybiau dan arweiniad gwirfoddolwyr i barhau i ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau sydd o bwys i bobl leol.

Agorodd Cyflwyno'ch Prosiect geisiadau ar gyfer cronfa gymunedol o **£25,000**, gan roi cyfle i bobl leol ymgeisio am grantiau bach o hyd at **£500** neu grantiau mwy o hyd at **£2,000**. Roedd y syniadau'n cynnwys gwisgoedd newydd a chymorth bwrsariaeth i Blue Phoenix, cychod gwenyn ychwanegol ar gyfer Gwenynod yn y Gymuned, a chymorth i Tother Works ddatblygu sied gweithwyr.

Yn MHA, rydym yn frwdfrydig dros achosion elusennol; yn ystod 2025, codwyd y canlynol gennym ...

Cydlynwyd **43** diwrnod o waith gwirfoddol gan staff eleni, gan roi cyfle i gydweithwyr gefnogi prosiectau lleol a rhoi rhywbeth yn ôl i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Cefnogwyd hybiau cymunedol a redir gan wirfoddolwyr hefyd, gan gyfrannu gwerth o **£4,320** i helpu i gynnal gwasanaethau lleol, gweithgareddau a lleoedd lle gall pobl ddod at ei gilydd..

Cefnogi grwpiau lleol

Drwy ein cronfa noddi cymunedol o **£5,000**, gwnaethom helpu clybiau lleol, digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol i barhau i ddod â phobl at ei gilydd a chefnogi llesiant ar draws Sir Fynwy.

Ymhlith y grwpiau a gefnogwyd yn 2025/26 roedd:

- Clwb Pêl-rwyd Ieuenctid y Fenni
- Theatr Gerddorol Cil-y-coed
- Ffair Bentref Tyndyrn



Ein Planed

Rydym yn gweithio i wneud cartrefi'n gynhesach, yn fwy gwyrdd ac yn fwy effeithlon, gan leihau'r effaith sydd gennym ar yr amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys gwella cartrefi presennol, adeiladu cartrefi newydd i safonau amgylcheddol uwch a chefnogi prosiectau cymunedol mwy gwyrdd.

Mae gwaith ôl-osod, inswleiddio, uwchraddio gwresogi, paneli solar, ailgylchu, bioamrywiaeth a gerddi cymunedol i gyd yn chwarae rhan wrth helpu cartrefi a chymunedau i ddod yn fwy cynaliadwy. Mae MHA hefyd yn lleihau effaith teithio bob dydd, gyda phob un o'r pedwar car pwll a ddefnyddir gan gydweithwyr wrth ymweld â chartrefi a chymunedau bellach yn rhai cwbl drydanol.

Cartrefi mwy clyd a mwy effeithlon o ran ynni

Mae gwella effeithlonrwydd ynni yn ymwneud â mwy na chyrraedd safonau. Mae'n helpu tenantiaid i fyw mewn cartrefi mwy clyd, rheoli defnydd ynni a lleihau'r risg o dlodi tanwydd.

Gosodwyd PV solar mewn **160** o gartrefi.

Mae angen rhagor o uwchraddio effeithlonrwydd ynni o hyd ar **1,600** o gartrefis.

Mae **2,626** o gartrefi wedi cyflawni sgôr ynni SAP 75.

£22m yw cost amcangyfrifedig gwaith effeithlonrwydd ynni sydd ei angen i gyrraedd SATC 2023.

Beth mae hyn yn ei olygu i denantiaid

- Cartrefi sy'n haws eu gwresogi a'u cadw'n gyfforddus.
- Gwell gwybodaeth i'n helpu i dargedu buddsoddiad lle mae ei angen fwyaf.
- Cartrefi sy'n cynhyrchu llai o garbon, gan gefnogi ein hymrwymiadau amgylcheddol ehangach.

Yr her sydd o'n blaenau

- Mae rhai cartrefi yn hŷn neu'n fwy cymhleth i'w gwella.
- Roedd mwy na thraean o gartrefi o dan SAP 75 ar ddiwedd 2025/26.
- Mae'r gost o fodloni SATC 2023* yn sylweddol, felly bydd angen cymorth ychwanegol a chynllunio gofalus.

*Mae SATC 2023 yn golygu Safon Ansawdd Tai Cymru 2023. Dyma safon Llywodraeth Cymru ar gyfer ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd ynni cartrefi cymdeithasol yng Nghymru.

Diweddariad ôl-osod: cartrefi mwy clyd, gwyrddach

Eleni, parhaodd ôl-osod a gwaith mawr ar draws sawl cymuned, gan helpu i wneud cartrefi'n fwy clyd, yn wyrddach ac yn fwy ynni-effeithlon. Roedd y prosiectau'n cynnwys:

- **Newland Way, Wyesham:** pecyn ehangach o waith ôl-osod, gan gynnwys systemau ffotofoltäig solar, inswleiddio llofft, inswleiddio waliau ceudod, inswleiddio waliau allanol a gwelliannau i awyru.
- **The Albion, Monmouth:** : inswleiddio waliau allanol a systemau ffotofoltäig solar i helpu i wella effeithlonrwydd ynni.
- **Middle Way, Bulwark:** inswleiddio waliau allanol a systemau ffotofoltäig solar, gyda thrigolion yn cael eu diweddaru wrth i'r gwaith fynd rhagddo.
- **Solar PV:** gosodiadau mewn nifer o gartrefi eraill i helpu i gefnogi defnydd o ynni glanach.

Oherwydd bod y math hwn o waith yn gallu tarfu, roedd tenantiaid a phreswylwyr yn cael eu hysbysu a'u cefnogi cyn, yn ystod ac ar ôl prosiectau. Ymwelodd ein Cydlynydd Prosiect Gwaith Mawr â thenantiaid cyn i'r gwaith ddechrau i egluro beth oedd wedi'i gynllunio, pwy fyddai ar y safle a sut i godi cwestiynau.

Rhannwyd diweddariadau trwy gylchlythyrau, gwybodaeth cerrig milltir allweddol, manylion cyswllt contractwyr, ymweliadau safle wythnosol ac archwiliadau rheolaidd. Rhoddodd hyn gyfleoedd i bobl ofyn cwestiynau, codi pryderon a deall sut y gallai gwaith effeithio ar gartrefi cyfagos.

Yn Newland Way, lle'r oedd y gwaith yn fwy cymhleth, cafodd lesddeiliaid eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ac roedd angen i rai tenantiaid symud allan dros dro. Gweithiodd timau gyda'i gilydd i gefnogi symud cartref, trefniadau cyfleustodau, pacio a chludo eiddo, gan helpu i leihau'r pwysau ar y rhai yr effeithir arnynt.

Trwy gyfuno diweddariadau prosiect penodol gyda chymorth ymarferol, y nod oedd gwneud gwelliannau mor llyfn â phosibl tra'n buddsoddi mewn cartrefi ar gyfer y dyfodol.

Mae adborth o'r Arolwg Ôl-osod yn dangos bod llawer o denantiaid eisoes yn cael budd o waith ôl-osod, gyda chartrefi'n aros yn fwy clyd am gyfnod hwy, gwresogi'n cael ei ddefnyddio'n llai aml a rhai tenantiaid yn nodi biliau ynni is.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

> **"Mae'r ffenestri wedi gwneud gwahaniaeth enfawr"**

> **"Go brin y gwnes i roi'r gwres ymlaen"**

> **"Mae fy miliau wedi'u haneru"**

Mannau gwyrddach, cymunedau glanach

Yn ystod 2025/26, helpodd tenantiaid, partneriaid lleol a thimau'r Cyngor i gadw mannau awyr agored yn lân, yn ddiogel ac yn groesawgar. Treuliodd Swyddogion Cymdogaeth amser rheolaidd mewn cymunedau, yn cynnal archwiliadau ystadau ac yn ymateb i faterion fel tipio anghyfreithlon, sbwriel, baw cŵn, cerbydau wedi'u gadael a gerddi wedi gordyfu. Cynhaliwyd 40 o ymweliadau Cerdded a Sgwrsio amlasiantaethol pellach gyda phartneriaid yn cynnwys Cyngor Sir Fynwy, Iechyd yr Amgylchedd a Heddlu Gwent, gan helpu i ganfod pryderon yn gynnar a chytuno ar atebion ymarfero.

Rhoddodd digwyddiadau glanhau cymunedol gymorth ymarferol i drigolion i wella eu hardal leol. Yng Nghil-y-coed, bu Tîm Gwastraff ac Ailgylchu'r Cyngor, y Cynghorydd Ward lleol Sue Parkinson a MHA yn cydweithio i ddarparu sgipiau symudol, cefnogi codi sbwriel a dosbarthu bagiau baw cŵn. Roedd y gweithgareddau hyn yn helpu trigolion i gael gwared ar eitemau diangen yn gyfrifol a lleihau'r risg o dipio anghyfreithlon.

Mae tir nas defnyddir hefyd yn cael ei archwilio fel ffordd o gefnogi cymunedau gwyrddach, iachach. Gan weithio gyda SamKat Consulting, nodwyd meysydd y gellid eu defnyddio ar gyfer gerddi cymunedol, tyfu bwyd, dal carbon a gweithgareddau llesiant. Mae cynlluniau bellach yn cael eu datblygu ar gyfer dau fan agored nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon yn Somerset Way ac Oakley Way, yn dilyn sgyrsiau â phreswylwyr ynghylch sut y gellid gwella a mwynhau'r mannau hyn.

Arbed arian a lleihau gwastraff trwy bantris bwyd

Parhaodd pantris bwyd cymunedol i helpu teuluoedd i leihau costau bwyd, tra hefyd yn lleihau gwastraff. Llwyddodd pantris Wyesham Warren a Food 4 You i drawsnewid yn sefydliadau sy'n cael eu rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, gan gefnogi bron i **100** o deuluoedd gyda bwyd fforddiadwy.



Dosbarthwyd **5,714**

o fagiau bwyd cost isel.



Cefnogwyd bron **100**

o deuluoedd trwy bantris bwyd cymunedol.



Arbedwyd cyfanswm o **£101,270**

i drigolion dros y flwyddyn.

Mae Food 4 You yn hollol wych. Dw i'n arbed rhwng £60 ac £80 y mis ar fy siopa."

Dewch i ni Ddefnyddio ein Cyfryngau Cymdeithasol

Mae ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn arf cyfathrebu allweddol i ni ac yn ein galluogi i ymgysylltu â'n Dilynwyr trwy wasgu botwm. Mae ein dilynwyr wedi cynyddu'n sylweddol dros 12 mis, felly diolch i'r rhai sydd eisoes wedi ymgysylltu â ni.

Ble gallwch chi ddod o hyd i ni ...

3,541	**1,126**	**1,405**	**4,673**	**1,705**
o Ddilynwyr (MHA)	o Ddilynwyr	o Ddilynwyr (Community Buzz)	o Ddilynwyr	o Ddilynwyr

Mae enghreifftiau o'r hyn rydym wedi defnyddio ein platfformau ar gyfer eleni yn cynnwys:

- Lansio Syniad ar gyfer Eich Prosiect
- Hyrwyddo ein datblygiadau newydd a'r cartrefi newydd sydd ar gael
- Cyhoeddi ein henw newydd
- Lansio Gwobrau Gwirfoddoli Sir Fynwy
- Creu ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau fel 'cerdded a sgwrsio' yn y gymdogaeth a diwrnodau hwyl

Rydym wedi diweddaru ein Polisi Cyfryngau Cymdeithasol i adlewyrchu ein hunaniaeth newydd, a fydd yn dod i rym ym mis Medi 2026; felly, bydd ein porthiant newyddion yn dechrau edrych ychydig yn wahanol. Bydd enwau ein llwyfannau yn newid i adlewyrchu ein henw newydd, Awen.

Byddwn yn pinio manylion am ein llwyfannau newydd ar ein llwyfannau presennol. Felly, i gael y wybodaeth ddiweddaraf am bopeth sy'n ymwneud ag 'Awen', dilynwch y cyfarwyddiadau hyn.

Dysgwch fwy amdanon ni a'n gwaith

Gallwch ddod o hyd i'r adroddiadau hyn ar ein gwefan os hoffech ragor o fanylion am ein perfformiad, ein cyllid, ein cynlluniau a'r ffordd rydym yn cyflawni ein hymrwymiadau.

- Adroddiad ar Werth am Arian
- Adroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu
- Cynllun Corfforaethol
- Hunanwerthusiad ac Asesiad Rheoleiddiol
- Datganiadau Ariannol





Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych

Mae eich adborth yn ein helpu i wella. P'un a ydych am wneud cwyn, rhannu canmoliaeth, ymuno â'r Gyfnewidfa, mynychu digwyddiad neu'n syml ddweud wrthym beth sy'n bwysig i chi, rydym am glywed gennych.

Sut i gysylltu â ni

Os ydych wedi ffonio'r brif linell eleni, efallai mai ein Tîm Cyswllt Cwsmeriaid oedd eich pwynt cyswllt cyntaf. Maent yn helpu i'ch cysylltu â'r gwasanaeth cywir ac yn datrys cymaint â phosibl ar y cyswllt cyntaf.

Caiff **88%**

o'r holl alwadau eu hateb o fewn 30 eiliad

Datrysir **85%**

ar y cyswllt cyntaf

Roedd **99.82%**

ohonoch yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsoch

Rydym wedi ...

Ymateb i **26,447**

o negeseuon e-bost

Cymryd rhan mewn **1,058**

o Sgyrsiau Byw

% y rhyngweithiadau digidol

36.5%

(cynnydd o **0.74%** y llynedd)

Gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

In writing: Tai Sir Fynwy, Tŷ Nant Y Pia, Parc Technoleg Mamhilad, Mamhilad, NP4 0JJ

Drwy e-bost: customerservices@monmouthshirehousing.co.uk

Drwy e-bost: 0345 677 2277

Ar ein gwefan: www.monmouthshirehousing.co.uk

Ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol swyddogol:

MHA
Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy

0345 677 2277

customerservices@monmouthshirehousing.co.uk

www.monmouthshirehousing.co.uk

Monmouthshire Housing Association
Nant-Y-Pia House, Mamhilad Technology Park
Mamhilad, Monmouthshire, NP4 0JJ

facebook.com/Monmouthshire.Housing